


# Menywod mewn bywyd cyhoeddus

## Cawcws Menywod mewn Democratiaeth y Cynulliad

Adroddiad

Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus
Women in Public Life

# Menywod mewn bywyd cyhoeddus

Ceir llai o fenywod na dynion mewn bywyd cyhoeddus. Er mai menywod yw dros hanner y boblogaeth, nid yw eu lleisiau'n cael eu clywed, ac mae eu safbwyntiau'n cael eu hanwybyddu. Mae Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Fonesig Rosemary Butler AC yn gweithio i fynd i'r afael â'r angen i fwy o fenywod ymgeisio ac ymgymryd â swyddi a phenodiadau cyhoeddus. Nod yr ymgyrch Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus yw sicrhau y caiff menywod eu cynrychioli'n deg ar bob lefel o fywyd cyhoeddus yng Nghymru.



**Y Fonesig Rosemary Butler AC**

# Menywod mewn bywyd cyhoeddus

Cawcws Menywod mewn Democratiaeth y Cynulliad

Adroddiad

Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus
Women in Public Life

# Aelodaeth



**Y Fonesig Rosemary Butler AC (Cadeirydd)**



**Jocelyn Davies AC**



**Eluned Parrott AC**



**Antoinette Sandbach AC**



**Rebecca Evans AC**
(mis Ionawr i fis Awst 2014)



**Joyce Watson AC**
(mis Medi i fis Rhagfyr 2014)

# Cynnwys

01. Cyflwyniad a Chefndir i’r Cawcws ..... 3
02. Canran y Menywod sydd mewn Seneddau ..... 4
03. Cyfarfodydd y Cawcws ..... 5
04. Ymweliad â Senedd Gwlad yr Iâ ..... 5
05. Arolwg y Cawcws Menywod mewn Democratiaeth ..... 6
06. Argymhellion ..... 6
Atodiad 1 ..... 7

# 01.Cyflwyniad a Chefndir i'r Cawcws

Fel rhan o'i hymgyrch Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus, ysgrifennodd y Fonesig Rosemary Butler AC, Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at bedwar arweinydd y pleidiau yn y Cynulliad ar ddechrau 2013, i ofyn iddynt ystyried camau y gellid eu rhoi ar waith i wireddu cydraddoldeb rhwng y rhywiau yn y Cynulliad ar ôl etholiadau nesaf y Cynulliad yn 2016.

Atebodd pob un o'r pedwar arweinydd plaid yn y Cynulliad yn gadarnhaol i'r her hon. Tra'n cydnabod bod dewis ymgeisydd yn fater i'r pleidiau, nododd y Llywydd ei hymrwymiad cadarn *hi* i sicrhau bod Aelodau'r Cynulliad yn cael y cyfle i ddysgu o arferion gorau o ran cydraddoldeb rhwng y rhywiau a hyrwyddo cyfleoedd i fenywod mewn gwleidyddiaeth.

Arweiniodd y nod hwn at sefydlu ***Cawcws Menywod mewn Democratiaeth y Cynulliad***, sy'n cynnwys un cynrychiolydd o bob un o bedair plaid wleidyddol y Cynulliad, fel bod modd gwneud penderfyniadau gwybodus a chymryd camau cadarnhaol tuag at gynrychiolaeth deg o fenywod mewn democratiaeth yng Nghymru.

Yr egwyddor y tu ôl i sefydlu'r Cawcws oedd:
**ceisio rhannu arferion gorau, gan gynnwys arferion gorau o seneddau eraill.**

Mae ei amcanion manwl yn cynnwys:

- Dysgu am gamau y mae seneddau a phleidiau wedi eu rhoi ar waith i annog / sicrhau cynrychiolaeth menywod ar lefelau gwleidyddol amrywiol;
- Ceisio nodi a yw seneddau sydd â chynrychiolaeth gref o fenywod yn creu polisïau a deddfwriaeth wahanol o ganlyniad i'r gynrychiolaeth gadarnhaol honno;
- Adnabod anghenion bugeiliol menywod sy'n wleidyddion; a beth y gall Comisiwn y Cynulliad ei ddysgu o hyn, a phennu meincnodau o ganlyniad i hynny.

Byddai'r Cawcws hefyd yn darparu'r cyfle i gynrychiolwyr o bedair plaid wleidyddol y Cynulliad roi gwybod am unrhyw fesurau a chamau gweithredu y mae eu pleidiau eu hunain wedi ymgymryd â hwy.

# 02.Canran y Menywod sydd mewn Seneddau

Mae'r tabl isod yn dangos rhestr o'r gwledydd sydd â'r ganran uchaf o fenywod yn y Tŷ is neu'r Tŷ sengl. Er bod Cymru, yn y rhestr wreiddiol yn cael ei chyfrif fel rhan o'r Deyrnas Unedig a'i bod, felly, ar rif 64, rydym yn awyddus i ddangos sut y byddai ar Gymru pe bai'n cael ei hystyried yn unigol. Mae'r tabl cyflawn ar gael yma (**http://www.ipu.org/wmn-e/classif.htm** )

| **Rheng** | **Gwlad** | **Y Tŷ is neu'r Tŷ sengl** | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Etholiadau** | **Seddi** | **Menywod** | **%W** |
| 1 | Rwanda | 9 2013 | 80 | 51 | 63.8% |
| 2 | Andorra | 4 2011 | 28 | 14 | 50.0% |
| 3 | Ciwba | 2 2013 | 612 | 299 | 48.9% |
| 4 | Seychelles | 9 2011 | 32 | 14 | 43.8% |
| 5 | Sweden | 9 2014 | 349 | 152 | 43.6% |
| 6 | Senegal | 7 2012 | 150 | 65 | 43.3% |
| 7 | Ffindir | 4 2011 | 200 | 85 | 42.5% |
| 8 | Nicaragua | 11 2011 | 92 | 39 | 42.4% |
| 9 | Equador | 2 2013 | 137 | 57 | 41.6% |
| **9** | **Cymru** | **5 2011** | **60** | **25** | **41.6%** |
| 10 | De Affrica | 5 2014 | 400 | 163 | 40.8% |

# 03.Cyfarfodydd y Cawcws

Cynhaliodd y Cawcws bum cyfarfod ffurfiol: ym **mis Chwefror, mis Ebrill, mis Mehefin, mis Hydref a mis Rhagfyr 2014.**

Gellir gweld cofnodion y cyfarfodydd hyn drwy glicio ar y dyddiadau isod.

- **11 Chwefror 2014 – Cylch Gorchwyl:** Cytunodd yr aelodau ar gylch gorchwyl a rhaglen waith y Cawcws.
- **1 Ebrill 2014 – Cynnydd mewn Cynrychiolaeth Fenywaidd:** Rhoddodd Dr Ruth Fox, Cyfarwyddwr Cymdeithas Hansard gyflwyniad ar y cynnydd a wnaed o ran gwella lefelau cynrychiolaeth menywod yn y deddfwrfeydd datganoledig dros y deng mlynedd diwethaf, gan ddadansoddi sut mae hyn wedi digwydd a pha rwystrau a fyddai'n bygwth cynnydd yn hyn o beth. Ar ôl cyflwyniad Ruth, trafododd yr ymgynghorydd a'r arbenigwr ar gydraddoldeb, Adele Baumgardt, ei hymchwil ar rôl Seneddwyr o ran cydraddoldeb. Gellir gweld eu cyflwyniadau llawn fel rhan o'r cofnodion.
- **17 Mehefin 2014 – Y Gwahaniaeth mae Menywod Seneddol yn ei Wneud:** O Rhoddodd Dr Paul Chaney o Ysgol Wyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd gyflwyniad ar y gwahaniaeth a wneir gan seneddwyr sy'n fenywod i bolisïau a llunio polisïau a, thra'r oedd wedi edrych ar ddeddfwrfeydd eraill, roedd yn edrych yn benodol ar brofiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystod ei ddau Gynulliad cyntaf (1999-2007). Gellir gweld ei gyflwyniad llawn fel rhan o'r cofnodion.
- **7 Hydref 2014 – Gwersi o Dramor:** trafododd aelodau'r Cawcws eu hymweliad diweddar â Senedd Gwlad yr Iâ (Althingi) a chanlyniadau'r arolwg a gomisiynwyd yn ddiweddar ar yr hyn a oedd yn atal aelodau benywaidd y pleidiau gwleidyddol rhag chwilio am swydd gyhoeddus.
- **2 Rhagfyr 2014 – Symud Ymlaen:** Cytunodd aelodau'r Cawcws ar fformat a chynnwys yr adroddiad a thrafodwyd y broses o weithredu'r argymhellion.

# 04.Ymweliad â Senedd Gwlad yr Iâ

Yn ôl y Gwasanaeth Ymchwil Senedd Ewrop, mae Gwlad yr Iâ wedi cael ei rhestru fel arweinydd byd o ran cydraddoldeb rhwng y rhywiau ers blynyddoedd. Mae'n cael ei dyfynnu'n aml fel model ar gyfer grymuso menywod yn wleidyddol, ac fel gwlad sy'n gwerthfawrogi menywod, sy'n rhoi cefnogaeth ac ysbrydoliaeth i lwyddo yn eu bywydau personol a phroffesiynol.

Roedd yr ymweliad â Senedd (Althingi) yn gyfle i'r Cawcws ddysgu rhagor am senedd hynaf y byd. Pam bod Gwlad yr Iâ mor llwyddiannus o ran sicrhau bod cydraddoldeb rhwng y rhywiau, a pha wersi y gellid eu trosglwyddo i'r pleidiau gwleidyddol, a'r Cynulliad.

Mae adroddiad llawn ar yr ymweliad â Gwlad yr Iâ i'w weld yng nghofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Hydref, 2014.

## 05.Arolwg y Cawcws Menywod mewn Democratiaeth

Yn ystod y cyfarfod o'r Cawcws ym mis Mehefin, gofynnodd yr Aelodau am gael comisiynu arolwg i nodi'r ffactorau sy'n atal menywod sy'n aelodau o bleidiau gwleidyddol rhag chwilio am swydd gyhoeddus.

Daeth cyfanswm o 37 o ymatebion i law. Y prif faterion a nodwyd oedd:

- yr angen am hyfforddiant
- teimlo'n ddi-hyder
- yr amser sydd ar gael

**Gellir gweld canlyniadau cyflawn yr arolwg yma.**

## 06.Argymhellion

Mae'r gwaith ymchwil a'r cyflwyniadau sydd wedi llywio'r Cawcws wedi arwain at lunio nifer o argymhellion y gellir eu gwneud i barhau â'r ymgais i gael mwy o fenywod ym myd gwleidyddiaeth. Cytunodd aelodau'r Cawcws:

- Y byddai'r Cawcws yn annog nad yw Llywodraeth Cymru yn rhoi grantiau a chytundebau mawr i sefydliadau os nad oes menywod ar eu bwrdd;
  *Wrth grantiau a chytundebau mawr, rydym yn golygu grantiau a chytundebau o dros 250k.*
- Y byddai'r Llywydd yn ysgrifennu i ofyn am adroddiad cynnydd gan Arweinwyr Pleidiau'r Cynulliad ar y camau a gymerwyd ganddynt i sicrhau bod mwy o gynrychiolaeth o fenywod yn Aelodau yn y Pumed Cynulliad;
- Y byddai'r Cawcws yn gwahodd y Bwrdd Taliadau i edrych ar ofynion bugeiliol penodol Aelodau'r Cynulliad, yn enwedig y rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu;
- Y byddai pob aelod o'r Cawcws yn annog eu grwpiau plaid i fabwysiadu dull sy'n fwy seiliedig ar sgiliau yn seiliedig ar egwyddorion cyffredinol recriwtio teg er mwyn annog ystod ehangach o fenywod i gynnig eu hunain mewn etholiad;
- Fod y Cynulliad yn ystyried cefnogaeth a hyfforddiant unigol rhyw-benodol i aelodau benywaidd newydd a'r rhai fydd yn dychwelyd i'r pumed Cynulliad;
- Fod y Cawcws yn gweithio gyda darlledwyr yng Nghymru i sicrhau ein bod yn gweld mwy o fenywod 'arbenigol' ar ein sgriniau teledu a'n rhaglenni radio;
- Y byddai'r Cawcws yn annog y grŵp trawsbleidiol ar Fenywod yn yr Economi gynnwys annog menywod i sefyll ar gyfer etholiadau, fel rhan o'i raglen waith;
- Y byddai Aelodau'r Cawcws, gyda chymorth ysgrifennydd y Cawcws ac ymgyrchoedd ymgysylltu ehangach y Cynulliad, yn chwilio am gyfleoedd i fynd ati'n rhagweithiol i ysbrydoli dadleuon cyhoeddus a rhoi sylw i'r pwnc cynrychiolaeth menywod.

  Cytunodd y Cawcws i gyfarfod yn anffurfiol i fonitro'r cynnydd ar weithredu'r argymhellion hyn.

# Atodiad 1

Mae'r adran hon yn cynnwys lincs ar gyfer sefydliadau ac adroddiadau defnyddiol.

- **Chwarae Teg**
- **Menywod yn Gwneud Gwahaniaeth**
- **Y Gymdeithas Diwygio Etholiadol**
- **Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru**
- **Adroddiad 'Pwy sy'n rhedeg Cymru'**
- **Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru (WEN)**
- **Menywod ym Maes Adeiladu (WIC Cymru)**
- **Safle porth Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus**
- **Cymdeithas Hansard**
- **Mae Menywod yn Cyfrif**
- **Yr Undeb Rhyngseneddol (IPU)**

Chwefror 2015